



ROBERT A. SULLY  
B.Sc, C.Eng, C.Env, M.I.C.E, M.C.M.I., M.I.o.D.

Cyfarwyddwr  
Yr Adran Addysg a Phlant  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

Director  
Department for Education and Children  
County Hall, Carmarthen SA31 1JP

Ffôn •Tel :  
01267 224888

e-bost • e-mail :  
[RASully@sirgar.gov.uk](mailto:RASully@sirgar.gov.uk)  
[RASully@carmarthenshire.gov.uk](mailto:RASully@carmarthenshire.gov.uk)

Eich cyf • Your ref :

Gofynner am • Please ask for : Sara Griffiths

Fy nghyf • My ref : 4056/SMG

Llinell Uniongyrchol • Direct Line: 01267 246618

Dyddiad • Date : 14/07/16

Annwyl Ymgynghorai,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –  
Newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**

Ddydd Mercher, 13<sup>eg</sup> Gorffennaf 2016, cymeradwyodd Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnig canlynol:

***Newid categori iaith Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin o ysgol ddwyieithog (categori 2A) i ysgol cyfrwng Cymraeg (categori CC) o 1<sup>af</sup> Medi 2016 ymlaen.***

Ystyriodd y Cyngor y cynnig yn unol â gofynion *Cod Trefniadaeth Ysgolion* 2013 a nododd fod dau wrthwynebiad wedi dod i law ynghylch y cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Wrth ddod i benderfyniad ar y cynnig, ystyriodd y Cyngor y ffactorau canlynol fel y'u hamlinellwyd yn nogfen *Cod Trefniadaeth Ysgolion* 2013 fel a ganlyn:

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Barn Estyn oedd y byddai'r cynnig o leiaf yn cynnal y safonau addysgol presennol yn yr ysgol a bod y cynnig yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr Awdurdod Lleol. Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, ystyriodd y Cyngor ganrannau llwyddiant yr ysgol sy'n dangos fod disgyblion yn perfformio'r well wrth astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na Saesneg. Yn ogystal, mae'r ffaith fod canlyniadau iaith Saesneg TGAU yn uwch na chanrannau lleol a chenedlaethol yn dangos nad oes angen pryderu. Yn ogystal, barn y Cyngor oedd bod cael grwpiau cyfrwng Cymraeg yn unig yn fwy manteisiol yn academaidd gan y bydd disgyblion yn gallu cael eu rhoi mewn grwpiau o'r un gallu. Byddai'r grwpiau hyn yn adlewyrchu gallu disgyblion ledled y garfan gyfan yn hytrach na ledled y cyfrwng addysgu yn unig.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, ystyriodd y Cyngor y galw am Fathemateg a Gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dros gyfnod o 15 mlynedd, mae canran y disgyblion sydd wedi dewis dilyn y cyrsiau trwy gyfrwng y Saesneg wedi gostwng yn raddol ac mae canran y disgyblion sydd wedi dewis dilyn y cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu. Bydd hwn yn newid

naturiol ar gyfer yr ysgol a bydd yn sicrhau bod yr ysgol yn ddigonol o ran darparu addysg cyfrwng Cymraeg sy'n ateb y gofynion cynyddol. Ni fydd dim newid i ddisgyblion presennol yr ysgol.

### **Adnoddau addysg**

Barn y Cyngor oedd y byddai'r cynnig hwn yn arbed arian o ran staffio yn arbennig yn yr Adran Wyddoniaeth. Byddai cynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn galluogi aelodau'r Adran Wyddoniaeth i gael eu rhyddhau er mwyn helpu ag agweddau eraill y cwricwlwm a hynny heb unrhyw gost ychwanegol i'r ysgol.

### **Gwrthwynebiadau i'r cynnig**

Daeth dau wrthwynebiad i law.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu ar gyfer y cynnig hwn bellach ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ddilyn y gwe-gyfeiriad isod:

[www.sirgar.llyw.cymru/RhFY-ysgolionuwchradd](http://www.sirgar.llyw.cymru/RhFY-ysgolionuwchradd)

Dilynwch y ddolen hon i'ch tywys i dudalen we yr ysgolion uwchradd a chliciwch ar y ddolen ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Ystyriodd y Cyngor y gwrthwynebiadau a ddaeth i law a chytunodd fod yr argymhellion yn symud yr ysgol ymlaen yn naturiol ar hyd continwrm yr Iaith Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-2017.

### **Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallant o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Sara Griffiths o'r adran hon.

Yn gywir,



Robert A Sully

Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant



ROBERT A. SULLY  
B.Sc, C.Eng, C.Env, M.I.C.E, M.C.M.I., M.I.o.D.

Cyfarwyddwr  
Yr Adran Addysg a Phlant  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin SA31 1JP

Director  
Department for Education and Children  
County Hall, Carmarthen SA31 1JP

Ffôn •Tel :  
01267 224888

e-bost • e-mail :  
[RASully@sirgar.gov.uk](mailto:RASully@sirgar.gov.uk)  
[RASully@carmarthenshire.gov.uk](mailto:RASully@carmarthenshire.gov.uk)

Eich cyf • Your ref :

Gofynner am • Please ask for : Sara Griffiths

Fy nghyf • My ref : 4056/SMG

Llinell Uniongyrchol • Direct Line: 01267 246618

Dyddiad • Date : 14/07/16

Dear Consultee,

**Notification of County Council Decision -  
Change in language category for Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**

On Wednesday 13th of July 2016, Carmarthenshire County Council approved the proposal as follows:

***To change the language category of Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin from Bilingual (category 2A) to Welsh Medium (category WM) from 1st September 2016.***

The Council considered the proposal in accordance with the requirements of the School Organisation Code 2013 and noted that two objections had been received in respect of the proposal during the statutory objection period.

In determining the proposal the Council took into account the following factors as outlined in the School Organisation Code 2013 as follows:

**Quality and standards in education**

It was Estyn's opinion that the proposal would at least maintain the current educational standards at the school and is in line with Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan to increase the provision of Welsh medium education in the local authority. In approving this proposal, the Council has considered the success percentages of the school which show that pupils perform better when they study subjects through the medium of Welsh rather than English. Also, the fact that English GCSE language results are higher than local and national percentages show that there is no need for concern. The Council also considered that having only Welsh medium groups is academically advantageous as pupils will be able to be placed in groups of the same ability. These groups would reflect the ability of pupils across the whole cohort rather than just across the teaching medium.

**Need for places and the impact on accessibility of schools**

In approving this proposal, the Council has considered the demand for Mathematics and Science education through the medium of Welsh and English. Over a period of 15 years, the percentage of

pupils who have chosen to follow the courses through the medium of English has gradually fallen whilst the percentage of pupils who have chosen to follow the courses through the medium of Welsh has increased. This will be a natural change for the school and ensures that the school is sufficient in providing Welsh medium education which meets the increasing demands. There will be no change for current pupils at the school.

### **Resourcing of education**

The Council has considered that this proposal would save money in terms of staffing in the Science Department in particular. Offering courses through the medium of Welsh only would enable members of the Science Department to be released to assist with other aspects of the curriculum at no additional cost to the school.

### **Objections to the Proposal**

Two objections were received.

The Objection Report for this proposal is now available to view on Carmarthenshire County Council's website by following the web address below:

[www.carmarthenshire.gov.wales/MEP-secondaryschools](http://www.carmarthenshire.gov.wales/MEP-secondaryschools)

Please follow this link which takes you to the secondary schools webpage and click on the link for Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

The Council considered the objections received and agreed that the proposal moves the school naturally along the Welsh language continuum in accordance with Carmarthenshire's Welsh in Education Strategic Plan 2014-2017.

### **Referral of local authority decisions to the Welsh Ministers**

Should any of the following bodies believe that an incorrect decision has been made by the local authority then under section 54 of the 2013 Act they may within 28 days refer the proposal to the Welsh Ministers for consideration:-

- Another local authority affected by the proposals;
- The appropriate religious body;
- The governing body of a voluntary or foundation school;
- A trust holding property on behalf of a voluntary or foundation school;
- A further education institution affected by the proposals.

Please contact Sara Griffiths of this department if you have any queries.

Yn gywir / Yours sincerely,



Robert A Sully  
Director of Education & Children's Services